**GRŴP ARBENIGOL AR ANGHENION CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMRU**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 MAWRTH 2019**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Hannah Blythyn AC | Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol |
| Darren Millar AC | Aelod y Ceidwadwyr Cymreig |
| Cyrnol Nick Lock | Brigâd 160 y Milwyr Traed a HQ yng Nghymru |
| Comodor yr Awyrlu Adrian Williams | RAF |
| Brigadydd 'Jock' Frasier | Y Llynges Frenhinol |
| Annabel Ingram | Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin |
| Lisa Thipthorp | Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol |
| Jane Williams | Ffederasiwn Teuluoedd y Llynges |
| Ant Metcalfe | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Is-gyrnol Stephen Hughes | Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid (RFCA) |
| Mike Bailey | Gwasanaeth Lles y Cyn-Filwyr |
| Naomi Alleyne | CLlLC |
| Lorraine Davies | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Roy Brown | COBSEO |
| John Shivas | Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Julie Lowe | SSAFA |
| Lisa Gostling | HIVE |
| Shelly Elgin | Help for Heroes |
| Fiona Jenkins | Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro |
| Leeanne Plechowicz | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru |
| Shehan Hettiaratchy | Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr, Imperial College Healthcare NHS Trust |
| Richard Swarbrick | NHS England |
| David O'Reilly | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Gary Haggaty | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Jan Jones | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Cerys Gage | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Peter Evans | Llywodraeth Cymru – Diogelwch Cymunedol |
| Tania Nicholson | Llywodraeth Cymru – Addysg |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Neil Kitchiner | Cyn-filwyr GIG Cymru |
| Ian Barrow | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru |
| Dawn North | HIVE |

**EITEM 1 – CROESAWU A CHYFLWYNO**

1.1 Croesawodd y Dirprwy Weinidog yr aelodau i'w chyfarfod cyntaf o Grŵp Arbenigol y Lluoedd Arfog, a phwysleisiodd ei hawydd i barhau â'r gwaith da a gyflawnwyd hyd yma.

## EITEM 2 – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF AR 26 MEDI 2018

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

## EITEM 3 – ADRODDIAD AR GYNNYDD Y CAMAU A GODODD MEWN CYFARFODYDD BLAENOROL

3.1 Nododd y Gweinidog fod llawer o'r camau blaenorol wedi'u cwblhau, neu eu bod ar waith, gyda rhagor o ddiweddariadau i'w darparu yn ystod y cyfarfod.

3.2 Nodwyd bod y mater yn ymwneud â darparu deintyddiaeth yng Ngorsaf Awyrlu Brenhinol y Fali wedi cael ei ddatrys. Diolchodd y Gweinidog i bawb oedd ynghlwm â'r mater. Rhoddodd Comodor yr Awyrlu Adrian Williams ei ddiolchiadau hefyd, gan dynnu sylw at y dull cydweithredol a ddefnyddiwyd i sicrhau llwyddiant yn y pen draw.

## EITEM 4 – DIWEDDARIAD GAN Y TRI GWASANAETH

4.1 Rhoddodd y Brigadydd Frasier wybod i'r aelodau bod 6% o'r Llynges Frenhinol wedi'u lleoli yng Nghymru bellach, gyda buddsoddiad ar y gweill i gynyddu ôl troed y Lluoedd Wrth Gefn.

4.2 Ar ôl i HMS Monmouth ddychwelyd o'i osodiad, cymerodd ei griw ran ym mharêd Rhyddid Trefynwy. Dychwelodd HMS Dragon i Portsmouth hefyd, ar ôl cyfnod o chwe mis. Cynghorodd y Brigadydd y byddai HMS Severn yn parhau i wasanaethu ar gyfer gweithrediadau yn y dyfodol, er y cafodd ei ddad-gomisiynu yn 2017.

4.3 Siaradodd y Cyrnol Lock am osodiad chwe mis y bataliynau milwyr traed parhaol, sef 1 Royal Irish ac 1 Rifles, i Affganistan i ddarparu diogelwch i genhadaeth hyfforddiant a mentora NATO, sef Operation RESOLUTE SUPPORT. Hefyd, dywedodd y byddai dau fataliwn wrth gefn yn cael eu gosod yn Affrica i gefnogi'r hyfforddiant gweithrediadol.

4.4 Parhaodd yr ymdrechion i gryfhau a gwella'r agenda STEM yng Nghymru trwy ddatblygu rhaglenni gweithgareddau ieuenctid ymhellach yn gymwysterau NVQ. Dywedodd y Cyrnol Lock bod parhad Barics Hightown fel sefydliad milwrol wedi cael ymateb da.

4.5 Dywedodd y Cyrnol Lock ei bod yn adeg brysur o'r flwyddyn i'r Fyddin. Roedd y cynlluniau ar gyfer yr ŵyl gerddoriaeth ar 4 Mai wedi cyrraedd eu hanterth. Rhoddwyd gwahoddiad i bob aelod o'r Grŵp Arbenigol fynychu. Bydd yr hydref yn nodi 75 mlynedd ers s'Hertogenbosch a byddai'n amlygu'r berthynas barhaus rhwng y ddwy wlad sydd wedi para hyd heddiw. Byddai Prif Weinidog Cymru yn bresennol.

4.6 Mae dyfodol Band Tywysog Cymru a Band y Cymry Brenhinol wedi cael ei sicrhau trwy'r 'Astudiaeth o Ddyfodol Cerddoriaeth y Fyddin'. Byddai'r ddau fand wedi'u lleoli yn Sain Tathan.

4.7 Pwysleisiodd y Cyrnol Lock estyniad parhaus mudiad y Cadetiaid yng Nghymru, gyda thair ysgol newydd yn datblygu ei Llu Cadetiaid Cyfun. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda phedwaredd ysgol.

4.8 Esboniodd Comodor yr Awyrlu Williams bod yr Awyrlu Brenhinol yn parhau i fod yn hynod brysur ar ymgyrchoedd ledled y byd, gyda 12 o ymgyrchoedd yn gweithredu ar hyn o bryd mewn 22 o wahanol wledydd. Mae adnoddau'r Awyrlu Brenhinol yn parhau wedi'u hymrwymo i ymladd yn erbyn Daesch, a rhyddhawyd awyren A400, gyda chyflenwadau cymorth, yn gynharach yn yr wythnos i helpu i liniaru'r argyfwng dyngarol ym Mozambique. Yn dilyn ymddeoliad y Tornado o wasanaeth yr Awyrlu Brenhinol ym mis Mawrth 2019, cynhaliwyd teithiau ffarwel dros Gymru i nodi bron i 40 mlynedd o wasanaeth gan yr awyren ac i gydnabod ei chysylltiadau cryf â Chymru, gan gynnwys Sain Tathan, Sealand ac Awyrlu Brenhinol y Fali.

4.9 Rhoddwyd diweddariad ar recriwtio i'r Awyrlu Brenhinol. Yn draddodiadol, roedd y rhai a recriwtiwyd ar gyfer yr Awyrlu yng Nghymru yn cyfrif am ryw 4% o niferoedd recriwtio'r Awyrlu ar y cyfan, gyda'r ganran hon yn gymesur â maint Cymru o gymharu â gweddill y DU. Ar y cyfan, roedd cynnydd recriwtio ar draws yr Awyrlu ym mlwyddyn ariannol 2018/19 (at ddiwedd mis Chwefror) wedi bod yn wych, gyda 99% o'r holl Swyddogion (572 o 573) a 95% o'r rhengoedd eraill eisoes wedi'u recriwtio (diffyg o 105 allan o 2130 ar hyn o bryd). Hefyd, esboniodd Comodor yr Awyrlu Williams gyflawniad rhagorol yr Awyrlu o ran recriwtio menywod, gyda'r Awyrlu yn gor-gyflawni'n gyson yn erbyn targedau Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn (mae'r Awyrlu wedi cyflawni 24% o recriwtiaid benywaidd ar hyn o bryd, yn erbyn targed y Weinyddiaeth Amddiffyn, sef 15%). Hefyd, nodwyd bod yr Awyrlu wedi penodi ei swyddog tair seren benywaidd cyntaf yn ddiweddar, sef Marsial yr Awyrlu Sue Gray, sy'n golygu mai hi yw'r swyddog milwrol benywaidd uchaf ei statws yn Lluoedd Arfog Prydain. Roedd hyn yn galonogol, ond mae'r gwaith yn parhau i gael mwy fyth o gynrychiolaeth fenywaidd. Byddai gorsaf Awyrlu Brenhinol y Fali hefyd yn brysur dros y blynyddoedd nesaf i gynyddu niferoedd peilotiaid er mwyn adlewyrchu canlyniad Adolygiad Amddiffyn a Diogelwch Strategol 2015, ac mae'r safle wedi cael rhagor o fuddsoddiad yn y blynyddoedd diweddar i'w alluogi i fod yn gyfleuster o safon fyd-eang gyda dyfodol tymor hir.

4.10 Trefnodd yr Awyrlu Brenhinol nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru yn 2019. Roedd y rhain yn cynnwys digwyddiad coffa yn Abertawe i ddathlu canmlwyddiant y Swyddogion yr Awyrlu Brenhinol Alcock a Brown yn hedfan yn ddi-dor dros Fôr yr Iwerydd am y tro cyntaf erioed yn 1919 – roedd gan Brown gysylltiad cryf ag Abertawe trwy gydol ei fywyd fel oedolyn. Byddai digwyddiad yn cael ei gynnal yng Nghaernarfon, hefyd, i gofio am y Capten Grŵp Rees VC, oedd yn hanu o Gaernarfon, ac yr oedd ei ddewrder yn yr awyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi arwain at dderbyn Croes Fictoria. Byddai hyn yn cynnwys yr anrhydedd prin iawn o enwi awyren RAF ar ôl Rees VC, a'r awyren yn hedfan dros Gaernarfon.

4.11 Hefyd, estynnodd Comodor yr Awyrlu ei longyfarchiadau i Sgwadron Cadetiaid Awyr Treffynnon, a dderbyniodd Dlws Lees yn ddiweddar, sy'n golygu mai nhw yw'r Sgwadron Cadetiaid Awyr gorau yn y Deyrnas Unedig. Gan ddiolch i'r Gwasanaethau am eu diweddariadau, dangosodd y Dirprwy Weinidog ddiddordeb yn y newyddion yn ymwneud â Chadetiaid Awyr Treffynnon, sydd wedi'u lleoli yn ei hetholaeth.

4.12 Siaradodd Fiona Jenkins am y diffyg cymorth canolfan feddygol yn Sain Tathan, sy'n fater a godwyd mewn cyfarfod diweddar gydag Eiriolwyr Iechyd y Lluoedd Arfog. Dywedodd Comodor yr Awyrlu bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y prydlesi yn Sain Tathan, a bod hynny wedi goresgyn y broblem hon.

## EITEM 5 – DIWEDDARIAD GAN FFEDERASIYNAU'R TEULUOEDD

5.1 Esboniodd Jane Williams fod 'penwythnosa' yn gyffredin ymysg 60% o deuluoedd y llynges, gyda phersonél milwrol a'u teuluoedd yn byw ac yn gweithio mewn gwahanol ranbarthau yn aml. Dywedodd Jane y datblygwyd 'Arweiniad ar Rieni Absennol' i gynnig cymorth i deuluoedd milwrol, ysgolion a darparwyr gofal iechyd. Soniodd Jane am waith ymchwil a wnaed gan Kings College, Llundain, a amlygodd effaith negyddol 'penwythnosa' ar y teulu. Gwelwyd bod plant hŷn yn cael trafferth gyda hyn yn enwedig, ac yn cael trafferth addasu i newidiadau. Nodwyd y byddai canlyniadau'r ymchwil yn helpu i lywio cynllunio'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y dyfodol. Dywedodd Jane y byddai'r arweiniad yn helpu teuluoedd a rhieni unigol a bod Ffederasiwn Teuluoedd y Llengoedd yn awyddus i sicrhau bod yr adnodd ar gael i bob partner allweddol.

5.2 Siaradodd Annabel Ingram am yr adroddiad o'r enw 'Lifting the Lid on Transition'. Cafodd yr adroddiad ei gynhyrchu â chymorth gan Ymddiriedolaeth Forces in Mind, ac mae'n cynnwys astudiaethau achos o Gymru ac yn cofnodi barn teuluoedd yn ymwneud â phontio.

5.3 Hefyd, cyflwynodd Annabel y llwyfan cyflogaeth a hyfforddiant newydd, a elwir yn Forces Families Jobs. Bydd y llwyfan ar gyfer y tri gwasanaeth yn hyrwyddo busnesau a sefydliadau sydd wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, a bydd yn cael ei lansio ym mis Medi.

5.4 Tynnodd Lisa Thipthorp sylw at y cydweithredu rhwng y tri Ffederasiwn Teuluoedd i amlygu'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd ar wasgar. Esboniodd Lisa fod problemau bach wedi'u codi gan deuluoedd sydd wedi'u lleoli yn Awyrlu Brenhinol y Fali ac Awyrlu Brenhinol Sain Tathan, ond codwyd y pryderon gyda'r Llwybr Atgyfeirio Cyflym. Atgyfnerthodd Lisa bwysigrwydd rheoli disgwyliadau a chyfathrebu hawliau. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog am ragor o wybodaeth am amseroedd aros cleifion.

5.5 Siaradodd Darren Millar AC am y digwyddiad ymgysylltu â gweithwyr Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid ar 26 Mehefin, gan nodi y byddai'n rhoi cyfle i hyrwyddo'r Cyfamod a'r cymorth y gall cymuned y lluoedd arfog gael mynediad ato. Dywedodd Darren Millar AC y byddai'n werth i Annabel fynychu'r digwyddiad, yn enwedig o ystyried ei rôl yn cefnogi teuluoedd personél milwrol.

5.6 Croesawodd Lorraine Davies y ddogfen ‘Arweiniad ar Rieni Absennol’ a chytunodd i’w chynnwys fel rhan o gyfeiriadur electronig y DWP ar gyfer cymorth i wragedd a gwŷr.

**EITEM 6 – IECHYD CYN-FILWYR**

6.1 Cyflwynodd Fiona Jenkins ei chydweithwyr, sydd wedi datblygu’r Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr yn Lloegr. Nodwyd bod rhwng 100 a 150 o gyn-filwyr wedi cael triniaeth trwy’r rhwydwaith yn Lloegr hyd yma.

6.2 Esboniodd David O’Reilly y byddai cyn-filwyr yn derbyn triniaeth briodol ac amserol fel rhan o’r Rhwydwaith. Esboniodd David, cyn y Rhwydwaith, y byddai cyn-filwyr sy’n dychwelyd o’r gwrthdaro gydag anafiadau difrifol yn cael eu trin gan dîm yn y GIG oedd yn anghyfarwydd ag anafiadau a achoswyd yn ystod gwrthdaro. Roedd hyn yn arwain at driniaeth amhriodol neu annigonol nad oedd yn addas ar gyfer y claf. Cadarnhaodd David mai Caerdydd fyddai lleoliad y Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr newydd yng Nghymru.

6.3 Atgyfnerthodd Shehan Hettiaratchy y byddai cyflwyno’r Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr newydd yng Nghymru yn darparu triniaeth leol i gyn-filwyr a fyddai’n bodloni eu hanghenion. Fodd bynnag, byddai’n bwysig hidlo’r rheiny na achoswyd eu hanafiadau o ganlyniad i brofiad o wasanaethu. Esboniodd Shehan er bod problemau trawsffiniol yn bodoli ar gyfer cyn-filwyr sy’n cael IVF, y mae eu triniaeth yn digwydd yn Birmingham, byddai datblygu’r Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr yng Nghymru yn cynnwys triniaeth ar gyfer IVF yn lleol.

6.4 Sefydlwyd y Rhwydwaith gan ddefnyddio adnoddau cyfyng, fel cyswllt e-bost ar gyfer atgyfeirio a rôl weinyddol; sy’n ddull a dderbyniodd gymorth gan Lywodraeth y DU. Esboniodd Fiona y cynhaliwyd trafodaethau hyd yma yn ymwneud â Rhwydwaith arfaethedig yng Nghymru, gyda Bwrdd Iechyd lleol Caerdydd a’r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau gyda Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC), sydd eisoes yn gyfrifol am reoli’r costau.

6.5 Gofynnodd Fiona am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ac aelodau’r Grŵp Arbenigol i fwrw ymlaen â’r Rhwydwaith yng Nghymru. Awgrymwyd y dylid cynnal trafodaethau rhwng Fiona a’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried pa mor ymarferol yw Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr yng Nghymru.

6.6 Mynegodd Darren Millar AC ei bryder ynghylch y ddarpariaeth yng ngogledd Cymru, o ystyried pa mor bell yw Caerdydd, a gofynnodd a fyddai’n bosibl i ogledd Cymru gysylltu â’r gwasanaeth yn Lloegr. Cadarnhawyd y gallai cleifion sy’n byw yng ngogledd Cymru gysylltu â’r gwasanaethau yn Stoke.

6.7 Dywedodd David mai prin y byddai ei rôl yn cynnwys atgyfeirio ac asesu yn uniongyrchol. O ystyried y niferoedd isel ar gyfer gwasanaeth o’r fath yng Nghymru, byddai’n fodlon teithio o gwmpas Cymru. Gan amlaf, gwaith cydlynydd y Rhwydwaith fyddai asesu a rheoli deunydd ar-lein ac ar bapur, a rhoi cymorth i

ddarparwyr lleol, cydlynu gofal, cyngor am atgyfeirio ymlaen a chymorth gyda cheisiadau am gyllid WHSSC, lle bo'n briodol. Pwysleisiodd Richard Swarbrick bwysigrwydd y Rhwydwaith er mwyn darparu gofal cynhwysfawr unigol, a chynnwys rhwydweithiau teuluoedd hefyd. Hefyd, nodwyd bod sgyrsiau wedi'u cynnal ynghylch ehangu ffocws y GIG i gynnwys cefnogi swyddogion heddlu sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol i ddychwelyd i'w dyletswyddau.

6.8 Siaradodd Shelley Elgin am y gronfa Libor a dderbyniwyd gan Help for Heroes i gefnogi cyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol y mae angen cymorth wedi'i deilwra arnynt, gan awgrymu y byddai'n cyd-fynd â gwaith y Rhwydwaith.

**CAMAU:**

- **Anfon llythyr gan y Dirprwy Weinidog at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddo gwrdd â Fiona Jenkins i drafod hyfywedd sefydlu Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr yng Nghymru.**

**EITEM AGENDA 7 – DIWEDDARIAD Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN**

7.1 Darparodd John Shivas ddiweddariad i'r aelodau ar y blaenoriaethau ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn. Roedd y Gwasanaeth Pontio Amddiffyn, a ddyluniwyd i ddarparu gwasanaeth holistaidd i'r rheiny y mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt wrth bontio, yn y camau cynnar. Cadarnhaodd John fod swyddogion Llywodraeth Cymru wrthi'n trafod gyda swyddogion sy'n arwain ar y Gwasanaeth. Byddai gwybodaeth ychwanegol ynghylch y Gwasanaeth Pontio Amddiffyn ar gael pan fydd rhagor o dystiolaeth ar waith i bennu gofynion penodol y gwasanaeth.

7.2 Nododd yr aelodau, er bod perthynas dda wedi'i sefydlu gyda'r Bartneriaeth Pontio Gyrfa, does dim gwasanaeth tebyg ar gael yng Nghymru. Dywedodd John y byddai swyddogion yn y Gwasanaeth Pontio Amddiffyn yn archwilio'r mater hwn.

7.3 Gofynnodd Ant Metcalfe p'un a fyddai mynediad i'r Gwasanaeth Pontio Amddiffyn yn cael ei wneud trwy hunanatgyfeirio neu atgyfeirio trwy wasanaeth. Cynghorwyd y byddai modd i bersonél milwrol gael mynediad i'r Gwasanaeth Pontio Amddiffyn trwy'r naill lwybr, yn ystod y cyfnod pontio. Cafwyd cadarnhad y byddai'r cymorth ar gyfer Cymru wedi'i leoli yn Telford ac yn cael ei rannu â Chanolbarth Lloegr, ac felly pwysleisiodd Ant bwysigrwydd sefydlu cymorth penodedig yng Nghymru. Rhoddodd Jan Jones wybod bod swyddogion wedi siarad â thîm y Gwasanaeth Pontio Amddiffyn, gan gynnig y rhoddir cymorth penodedig i Gymru ddeuddydd yr wythnos.

7.4 Amlinellodd Mike Bailey fod y broses recriwtio a hyfforddi eisoes ar y gweill, a thawelodd meddwl aelodau fod ansawdd y bobl a gafodd eu recriwtio yn uchel.

7.5 Caewyd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Cyn-filwyr ar 21 Chwefror. Byddai'r ymatebion yn cael eu rhannu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru pan fyddant

wedi'u dadansoddi. Byddai dull cydweithredol yn cael ei fabwysiadu ar draws y 4 cenedl i drafod ac ystyried cyflwyno'r gwasanaethau ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog yn y dyfodol.

7.6 Cadarnhaodd John y byddai cyfarfod nesaf Grŵp Cyfeirio'r Cyfamod yn cytuno ar gynigion ar gyfer blaenoriaethau cyllido'r dyfodol. Byddai hyn yn debygol o gynnwys ffocws ar deuluoedd. Nodwyd yr heriau sy'n wynebu plant sy'n gorfod symud yn aml oherwydd adleoli milwrol. Esboniodd John y bu achosion lle nad oedd gan swyddogion Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau Awdurdodau Lleol ddigon o adnoddau na phrofiad i allu bodloni anghenion y plant. Roedd Siarter Awdurdodau Lleol ar gyfer plant i filwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau yn cael ei ddatblygu, a phan fyddai hwnnw ar waith, byddai'n egluro'r cymorth disgwyliedig wrth bontio i Awdurdod Lleol newydd. Cynghorodd Fiona fod hyn eisoes yn cael ei ystyried yng Nghymru ar ôl cyflwyno'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, a fyddai'n cynnig cymorth i garfan ehangach o blant i filwyr.

**EITEM AGENDA 8 – DIWEDDARIAD LLYWODRAETH CYMRU**

8.1 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i bawb a gyfrannodd at yr Ymarfer Cwmpasu. Byddai canfyddiadau'r ymarfer yn llywio polisïau yn y dyfodol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog yr hoffai weld Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu yn y dyfodol, i ddatblygu cynllun cyflenwi ac i amlygu dull cydweithredol o fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

8.2 Rhoddodd Peter Evans gyflwyniad i'r materion allweddol a gododd o'r 1,007 o ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r arolwg ar-lein ac ymgysylltiad wyneb yn wyneb, a chadarnhaodd y byddai'r argymhellion yn cael eu bwydo i'r Strategaeth Cyn-filwyr. Roedd yr adborth yn adlewyrchu barn gymysg ynghylch pontio. Roedd 16% o'r sylwadau'n amlygu profiad cadarnhaol o adael y Gwasanaethau Milwrol, ond roedd diffyg cymorth a phrofiad gwael hefyd yn fater amlwg a godwyd gan gyn-filwyr a'u teuluoedd. Amlygodd yr ymatebion nad oedd y Cyfamod yn cael ei gynnal, yn aml oherwydd diffyg ymwybyddiaeth, gyda chyn-filwyr yn gorfod herio hawliau. Awgrymwyd y byddai gwella gwaith codi ymwybyddiaeth a hyfforddi staff y rheng flaen yn ffordd o helpu i fynd i'r afael â hyn. Nododd Peter na ellir anwybyddu'r sgiliau a'r profiad y mae cyn-filwyr wedi'u hennill yn ystod eu gwasanaeth.

8.3 Siaradodd Peter am y 'Map of Need', sef prosiect a arweinir gan Brifysgol Northumbria i amlygu anghenion lles cyn-filwyr a'u teuluoedd ledled y DU, a chadarnhaodd bod swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr o Brifysgol Northumbria i gynnwys y canolfannau cymorth a amlygwyd fel rhan o'r Ymarfer Cwmpasu ar y Map hwn.

8.4 Dywedodd Peter y byddai canfyddiadau'r Ymarfer Cwmpasu, wrth edrych arnyn nhw ar y cyd â'r 'Map of Need', yn darparu tystiolaeth nodedig o'r cymorth ychwanegol sydd ei angen.

8.5 Holodd Ant a godwyd gamblo fel problem. Er nad yw wedi cael ei grybwyll yn benodol, roedd swyddogion yn cydweithio'n agos gyda Phrifysgol Abertawe, oedd yn cynnal gwaith ymchwil yn ymwneud â gamblo.

8.6 Nododd Fiona fod angen rhagor o ymwybyddiaeth o ran deall anghenion iechyd cyn-filwyr, a chynghorodd bod y ffurflen GPMS ddiwygiedig bellach yn galluogi meddygon teulu i amlygu cyn-filwyr sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd yn eu hardaloedd. Roedd posteri codi ymwybyddiaeth hefyd yn cael eu creu i wella ymwybyddiaeth cyn-filwyr o'u hawliau gofal iechyd.

8.7 Rhoddodd Peter wybod i'r aelodau bod y mater ynghylch prostheteg bellach wedi'i ddatrys. Roedd cyllid gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi galluogi hyfforddiant wedi'i deilwra gael ei gyflenwi ar gyfer prosthetyddion yng Nghymru, yn ymwneud â ffitio dyluniad soced penodol sydd ei angen ar gyn-filwyr sydd wedi colli aelodau.

**EITEM AGENDA 9 – DIWEDDARIAD SSAFA**

9.1 Cyflwynodd Julie Lowe y System Rheoli Gwaith Achos (*Casework Management System* (CMS)), sef prosiect oedd dan arweiniad SSAFA ar ran 120 o elusennau milwrol. Esboniodd Julie fod yr achosion wedi mynd yn fwyfwy cymhleth, a bod gan y CMS ei gyfyngiadau, er enghraifft peidio gallu cofnodi data ansoddol neu asesu canlyniadau'n llawn pan ddarperir cymorth gan fwy nag un sefydliad. Byddai'r system CMS newydd, y disgwylir iddo gael ei lansio ym mis Tachwedd, yn seiliedig ar gleientiaid, yn asesu canlyniadau ac yn caniatáu ar gyfer gwneud penderfyniadau cyflymach. Byddai hefyd yn helpu'r sector i amlygu a bodloni anghenion cymuned y Lluoedd Arfog yn well. Pan fydd y system wedi'i sefydlu, byddai'n bwydo i'r 'Map of Need' ac yn eu galluogi i ddehongli data yn well.

**EITEM AGENDA 10 – DIWRNOD Y LLUOEDD ARFOG A SWYDDOGION CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG**

10.1 Rhoddodd Naomi Alleyne ddiweddariad i aelodau ar y safle diweddaraf ynghylch Diwrnod y Lluoedd Arfog. Esboniodd Naomi y cynhaliwyd trafodaethau ers y Grŵp Arbenigol diwethaf gydag Eiriolwyr Lluoedd Arfog Awdurdodau Lleol i bennu beth fyddai eu dewis o ran yr opsiynau a gyflwynir:

- Un Diwrnod Lluoedd Arfog yng Nghymru bob blwyddyn, gyda chefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, dan arweiniad Awdurdodau Lleol gwahanol bob tro;
- Dau ddigwyddiad y flwyddyn gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cymru o £20k tuag at ddau ddigwyddiad (gogledd a de, gan gynnwys y canolbarth).

10.2 Cadarnhaodd Naomi na wnaed penderfyniad clir hyd yma. Roedd y trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Dywedodd Comodor yr Awyrlu Williams, os opsiwn un fyddai'r

opsiwn a ddewisir, byddai angen gwneud penderfyniad ar y cyd i benderfynu pwy fydd yr Awdurdod llywyddu ar gyfer pob Diwrnod Lluoedd Arfog.

10.3 Croesawyd penodiad Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog gan bartneriaid allweddol, yn enwedig o ystyried eu cylch gwaith i ystyried materion rhanbarthol sy'n wynebu cymuned y Lluoedd Arfog a rhannu arfer da. Siaradodd Naomi am gylchlythyr Gwent fel enghraifft, a chytunodd i rannu hwn gyda'r aelodau er gwybodaeth.

10.4 Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei benderfyniad i ariannu'r swyddi Swyddogion Cyswllt Lluoedd Arfog am ddwy flynedd o 2019 ymlaen. Cadarnhaodd Naomi fod trafodaethau ynghylch dull ariannu a gytunir ar y cyd yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru.

10.5 Atgyfnerthodd Comodor yr Awyrlu Williams waith da'r Swyddogion Cyswllt ledled Cymru.

**EITEM AGENDA 11 – DIWEDDARIAD RBL**

11.1 Rhoddodd Ant ddiweddariad ar y cynlluniau sydd ar waith i nodi 75 mlynedd ers D-Day. Roedd tri opsiwn ar waith i gyn-filwyr oedd yn dymuno cymryd rhan, oedd yn amrywio o daith 10 diwrnod i Normandi i ymweld â'r Ardd Goed Goffa Genedlaethol. Esboniodd Ant y telir am yr holl gostau, a byddant yn cynnwys un gofalwr fesul cyn-filwr. Ar gyfer y rhai a gofrestrodd ar gyfer y daith i Normandi, cadarnhawyd y byddai asesiadau lles a chymorth yn cael eu cynnal.

11.2 Byddai'r digwyddiadau cofio ychwanegol sydd ar y gweill yn cynnwys Op Banner 50, i gofio 50 mlynedd ers gosod Lluoedd Arfog y DU ar weithrediadau yng Ngogledd Iwerddon.

**EITEM AGENDA 12 – UNRHYW FUSNES ARALL**

12.1 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r aelodau am eu mewnbwn, gan nodi y bu'n gyfarfod defnyddiol.

12.3 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Medi, 10 – 11.30am. Y lleoliad i'w gadarnhau maes o law.